# CYMDEITHAS GYMREIG WOKING
# WOKING WELSH SOCIETY

## EIN NOD YN Y GYMRAEG / OUR AIM IN WELSH

Ein bwriad yw hyrwyddo a hybu gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau cymdeithasol a chyfeillgarwch Cymreig yn Woking a'r cyffiniau. Byddwn yn cwrdd yn Woking yn fisol ag eithrio misoedd yr haf. Y mae ein cyfarfodydd yn cyffwrdd ag amrywiaeth eang o bynciau ond fel arfer âthema Gymreig. Gwelir restr o ddigwyddiadau nodweddiadol isod, rhestr a all newid yn flynyddol yn ôl dymuniadau'r aelodaeth. Gyda llaw, byddwn yn mynd I dafarn yn awr ac yn y man! Fel arfer yr ydym yn rhwydd a diffwdan ein ffordd ond i ddathly Dydd Gŵl Dewi byddwn yn cynnal cinio a dawns ffurfiol a Gwasanaeth Eglwysig.

